

Hysbysiad archwilio

Hysbysiad o benodi'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

[Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad

Y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2024

1. Dyddiad cyhoeddi
_____ 14/06/2024 _____

2. Bob blwyddyn mae'r cyfrifon blynyddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, caiff unrhyw berson â buddiant gyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebaw ac ati sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol wrth wneud cais i:

Mrs Eleri Lewis _____

Yr Alma, Cribyn, _____

Llanbedr Pont Steffan _____

rhwng oriau _____ 9.00am_ a _10.00 _____ o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio dydd Mawrth)

yn dechrau ar 01 Gorffennaf 2024

ac yn gorffen ar 26 Gorffennaf 2024

3. O 12 Medi 2024, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:

- yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon.
- yr hawl i fod yn bresennol gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Yn gyntaf, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor hefyd.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngor Cymunedol, Archwilio Cymru, 1 Prifddinas-Chwarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn communitycouncilaudits@audit.cymru.

Tudalen 10 o 16 - Archwilio Cyfrifon 2024 - Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu Saesneg / Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

4. Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Y sefyllfa sylfaenol

Yn ôl y gyfraith, mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon y cyngor. Os oes gennych hawl ac wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyngor lleol, yna mae gennych chi (neu'ch cynrychiolydd) hefyd yr hawl i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol amdanynt neu herio eitem o gyfrif sydd wedi'i chynnwys ynddynt.

Yr hawl i archwilio'r cyfrifon

Pan fydd corff llywodraeth leol wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol o'ch bwriadau, yna mae gennych 20 diwrnod gwaith i edrych trwy'r cyfrifon a'r dogfennau ategol. Byddwch yn gallu gwneud copïau o'r cyfrifon a'r rhan fwyaf o'r dogfennau perthnasol o'r corff. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i chi dalu ffi copïo.

Yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon

Dim ond cwestiynau am y cyfrifon y gallwch ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau am bolisïau, cyllid, gweithdrefnau neu unrhyw beth arall nad yw'n gysylltiedig â'r cyfrifon. Rhaid i'ch cwestiwn fod am y cyfrifon sy'n destun archwiliad. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddweud a yw'n credu bod rhywbeth y cyngor wedi'i wneud, neu eitem yn ei gyfrifon, yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

Yr hawl i wrthwynebu'r cyfrifon

Os ydych chi'n credu bod y corff wedi gwario arian na ddylai ei gael, neu fod rhywun wedi achosi colled i'r corff yn fwriadol neu drwy ymddwyn yn anghyfrifol, gallwch wrthwynebu'r Archwilydd Cyffredinol drwy anfon 'hysbysiad o wrthwynebiad' ffurfiol, y mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod. Gallwch ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol wneud cais i'r llysoedd am ddatganiad bod eitemau o'r fath yn anghyfreithlon. Rhaid i chi ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol pam eich bod yn gwrthwynebu. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i benderfyniad ar eich gwrthwynebiad. Os nad ydych yn hapus gyda'r penderfyniad hwnnw, gallwch apelio i'r llysoedd. Rhaid i chi hefyd anfon copi o'ch hysbysiad at y cyngor ei hun.